# Glanhau a thrin ceffylau, o dan oruchwyliaeth

SAFONAU GALWEDIGAETHOL CENEDLAETHOL

## Trosolwg

Mae'r safon hon yn ymwneud â chynorthwyo i lanhau a thrin ceffylau yn rheolaidd. Gellir gwneud hyn cyn neu ar ôl ymarfer corff neu ar adegau eraill, fel y bo angen.

Byddai'r gwaith a ddisgrifir yn y safon hon yn cael ei wneud o dan gyfarwyddyd goruchwylydd. Gallai hyn fod yn oruchwyliaeth uniongyrchol neu gallai fod trwy roi cyfarwyddiadau a monitro gwaith.

Bydd angen i chi fod yn gwbl ymwybodol o bwysigrwydd iechyd, diogelwch a lles anifeiliaid mewn cysylltiad â'r gweithgaredd hwn.

## Meini prawf perfformiad

*Rhaid i chi allu:*

1. gwisgo'r dillad a'r offer amddiffynnol personol priodol ar gyfer y gweithgaredd, yn unol â'r cyfarwyddiadau
2. paratoi'r ardal waith, o dan oruchwyliaeth
3. mynd at y ceffyl yn unol â'r cyfarwyddiadau ac mewn ffordd sy'n lleihau straen ar y ceffyl a pherygl i chi ac i eraill
4. cadw rheolaeth dros y ceffyl tra'n glanhau a thrin
5. dewis offer yn unol â'r cyfarwyddiadau
6. glanhau traed a choesau'r ceffyl, o dan oruchwyliaeth
7. glanhau mwng a chynffon y ceffyl, o dan oruchwyliaeth
8. golchi'r ceffyl â sbwnj, o dan oruchwyliaeth
9. trin y ceffyl o dan oruchwyliaeth gan ddefnyddio offer priodol
10. hysbysu'r goruchwylydd ynghylch unrhyw bryderon yn ymwneud â chyflwr y ceffyl, ei draed neu ei esgidiau
11. glanhau'r offer trin a'i storio'n gywir ar ôl ei ddefnyddio
12. gwaredu gwastraff yn ddiogel ac yn gywir
13. bod yn ymwybodol o'ch iechyd a'ch diogelwch eich hun ac eraill, a lles y ceffyl, yn ystod y gweithgaredd

## Gwybodaeth a dealltwriaeth

*Mae angen i chi wybod a deall:*

1. sut i ddefnyddio a gofalu am offer amddiffynnol personol
2. eich rôl a'ch cyfrifoldebau yn ymwneud â glanhau a thrin ceffylau a pham y mae angen trin ceffylau
3. sut i fynd at geffylau mewn ffordd briodol er mwyn lleihau straen arnynt a pherygl i chi eich hun ac i eraill
4. y dulliau a ddefnyddir i gadw rheolaeth dros y ceffyl tra'n glanhau ac yn trin
5. y mathau o offer glanhau a thrin a ddefnyddir yn gyffredin
6. sut i ddefnyddio deunyddiau glanhau yn gywir ac yn ddiogel
7. y technegau a'r gofynion trin gwahanol a phryd i'w defnyddio
8. pwysigrwydd sychu coesau'r ceffyl ar ôl golchi
9. sut i ddefnyddio, glanhau a storio offer trin
10. sut i wirio cyflwr y ceffyl, ei draed neu ei esgidiau a pham y mae hyn yn bwysig
11. y dulliau cywir ar gyfer gwaredu gwastraff
12. eich cyfrifoldebau yn ymwneud ag iechyd, diogelwch a lles anifeiliaid.

## Cwmpas/Ystod

Trin:

- trin ceffylau er mwyn paratoi ar gyfer ymarfer corff
- trin ceffylau ar ôl ymarfer corff
- trin yn drwyadl

Glanhau a thrin ceffylau, o dan oruchwyliaeth

| | |
|---|---|
| **Datblygwyd gan** | Lantra |
| **Dyddiad cymeradwyo** | 31 Ion 2017 |
| **Dyddiad Adolygu Dangosol** | 31 Ion 2021 |
| **Dilysrwydd** | Ar hyn o bryd |
| **Statws** | Gwreiddiol |
| **Sefydliad cychwynnol** | Lantra |
| **RCU gwreiddiol** | LANEq101 |
| **Galwedigaethau perthnasol** | Cynorthwyydd Ceffylau |
| **Cyfres/Set** | Ceffylau |
| **Geiriau Allweddol** | ceffyl; ceffylau; trin; gofal; lles; glanhau |